CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i:	**Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
Dyddiad y cyfarfod:	**31 Mai 2024**
Teitl:	**Ychwanegiad i'r Cyfansoddiad - Rhan 4 Dogfen D – Rheolau Gweithdrefn y Cabinet – Penderfyniadau Brys**
Pwrpas yr adroddiad:	**Diweddaru'r Pwyllgor ar ddiwygiad i'r Cyfansoddiad**

Cefndir

Yn ystod pandemig COVID-19, llofnododd yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd (ar y pryd) amrywiol Gofnod o Hysbysiadau Penderfyniad Brys: Strwythur Llywodraethu ar gyfer Gwneud Penderfyniadau - Cyngor Sir Ceredigion.

Pwrpas hyn oedd, o ystyried yr argyfwng cenedlaethol a'r sefyllfa frys a gododd o ganlyniad i COVID-19, bryd hynny, ac er mwyn amddiffyn buddiannau'r Cyngor a'r cyhoedd, mewn amgylchiadau lle bernir bod y penderfyniad yn un brys, fel y byddai unrhyw oedi yn rhagfarnu buddiannau'r Cyngor neu'r cyhoedd yn ddifrifol, yna, mewn perthynas ag Gweithredu Swyddogaethau Gweithredol fel yr amlinellir yng Nghyfansoddiad y Cyngor, a chan ystyried Adran 15(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, ac yn absenoldeb neu ddiffyg argaeledd:

(1) yr Arweinydd, neu (2) y Dirprwy Arweinydd, gellid dirprwyo'r pŵer a'r cyfrifoldeb o weithredu swyddogaethau Gweithrediaeth o'r fath er mwyn:
- sicrhau bod gwasanaethau allweddol yn parhau i weithredu;
- sicrhau bod buddiannau'r Cyngor, ei breswylwyr a'i staff yn cael eu gwarchod; a
- Atal gweithrediad gwasanaethau nad ydynt yn allweddol yn ôl yr angen, gan ystyried goblygiadau posibl COVID-19.

Y sefyllfa bresennol

Yn dilyn y pandemig, drafftiwyd gwelliant arfaethedig i Reolau Gweithdrefn Cabinet y Cyfansoddiad (Rhan 4 Dogfen D) ynghylch cynllunio brys Gweithredol mewn amgylchiadau tebyg i'r rhai a ddefnyddiwyd yn ystod pandemig COVID-19.

Ystyrir y bydd hyn yn cryfhau proses ddirprwyo'r Cabinet o fewn y Cyfansoddiad.

Rhannwyd drafft cychwynnol Rhan 4 Dogfen D gyda Gweithgor y Cyfansoddiad (GyC) ar 6 Rhagfyr 2023.

Roedd GyC o'r farn fod angen mwy o wybodaeth a gofynnodd am y newidiadau isod: -

1) Ymgynghori gyda'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd - digwyddodd hyn ar 7 Chwefror 2024.

2) Ychwanegu terfyn amser: pan fydd yr Arweinydd a/neu'r Dirprwy Arweinydd ar gael nesaf, neu ar ôl 21 diwrnod, pa un bynnag sydd gynharaf.

Gwnaed gwelliannau ar ôl cyfarfod 6 Rhagfyr.

Ar 9/4/24, gofynnodd GyC am ychwanegiad arall: -

1) Ychwanegu mwy o wybodaeth am argyfyngau sifil / Trefn Rheoli Aur.

Uwch-oleuir y testun diwygiedig arfaethedig mewn melyn (Atodiad 1).

Mae hwn wedi'i rannu a'i gymeradwyo gan y GyC -17/5/24

Argymhelliad(au):

1) Nodi cynnwys yr adroddiad
2) Gwneud argymhelliad i'r Cyngor gymeradwyo ychwanegu'r testun yn Atodiad 1 (a uwch-oleuwyd yn felyn)

Rhesymau dros y penderfyniad:

- Cryfhau'r broses ddirprwyo penderfyniadau brys Gweithredol o fewn y Cyfansoddiad.
- Sicrhau bod y Cyfansoddiad yn addas i'r diben.

Atodiadau:

Atodiad 1 - Rhan 4 Dogfen D – Rheolau Gweithdrefn y Cabinet

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:

Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Cyfreithiol a Llywodraethu

Swyddog Adrodd:

Katy Sinnett-Jones, Swyddog Llywodraethu

Dyddiad:

13 Mai 2024